Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Park Street, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 29 Medi 2022

Dyddiad cyhoeddi: 30 Rhagfyr 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-192-4

© Hawlfraint y Goron 2022

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

Ansawdd Profiad y Claf ........ 8

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14

4. Y camau nesaf ........ 15

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 16

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 17

Atodiad C - Cynllun gwella ........ 18

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Park Street, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar 29 Medi 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Deintyddfa Park Street yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w chleifion.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn, a bod systemau ar waith i gynnal urddas y cleifion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgar a pharchus ac roedd y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

- Roedd mynediad da i bobl anabl yn y practis. Roedd ramp anabledd wedi'i osod ac roedd deintyddfa yn gweithredu ar y llawr gwaelod.

## Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod yr adeilad mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, a bod y practis yn cael ei gadw'n lân ac yn daclus.

Gwelsom dystiolaeth bod asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar waith a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion hefyd. Roedd pob cofnod o safon dda.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Nid yw'r staff wedi cwblhau archwiliadau mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu a rhoi gwrthfiotigau ar bresgripsiwn yn y practis eto. Mae angen i'r staff gwblhau'r archwiliadau hyn cyn gynted â phosibl.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

- Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Roedd pob un yn gyfredol ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir yn Neintyddfa Park Street.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth o drefniadau llywodraethu da ac agweddau proffesiynol gan y staff.

- Gwelsom dîm o staff a oedd yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 48 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a roddodd adborth ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol hwn ei fod yn 'dda iawn' yn eu barn nhw. Roedd y cleifion yn arbennig o gadarnhaol am broffesiynoldeb y staff, gan ddweud eu bod yn teimlo bod y staff yn "rhoi tawelwch meddwl" iddynt ac yn rhoi "gofal da" iddynt.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> ***"… Mae'r tîm yn wych ac yn rhoi tawelwch meddwl i mi ac yn fy nghefnogi bob amser."***
>
> ***"Mae'r staff yn wych. Mae'r driniaeth yn ardderchog. Dim cwynion o gwbl."***

### Cadw'n Iach

**Diogelu a Gwella Iechyd**

Gwelsom y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd mewn ymateb i COVID-19. Roedd gorsafoedd diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r practis ac roedd posteri yn rhoi gwybodaeth am COVID-19 yn cael eu harddangos. Mae'r staff yn parhau i wisgo masgiau ac anogir y cleifion i wneud hynny hefyd. Mae arwyddion sy'n annog y cleifion i wisgo gorchudd wyneb neu fasg ar gael yng nghyntedd y practis.

O blith y 48 o gleifion a gwblhaodd holiaduron, dywedodd 45 ohonynt fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach a dywedodd tri chlaf nad oedd y tîm wedi gwneud hynny.

Roedd enw'r practis i'w weld yn glir o'r tu allan ac roedd yr oriau agor a'r rhif ffôn

mewn argyfwng wedi'u harddangos hefyd.

## Gofal ag urddas

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd drysau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cadw ar gau yn gyfan gwbl yn ystod apwyntiadau ac roedd ardal y dderbynfa wedi'i lleoli i ffwrdd o'r ystafell aros, gan olygu bod modd cynnal sgyrsiau cyfrinachol.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael eu trin mewn modd urddasol a pharchus, a chlywsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oes unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn y practis ar hyn o bryd ac nad oes unrhyw gleifion wedi gofyn am gael sgwrsio yn Gymraeg. Caiff gwybodaeth i gleifion ei harddangos yn ddwyieithog yn yr ardal aros, a dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu pan fo angen. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod taflenni gwybodaeth i gleifion dwyieithog wrthi'n cael eu hargraffu a bod neges peiriant ateb ddwyieithog yn cael ei datblygu.

Gwelwyd bod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

**Gwybodaeth i gleifion**

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardal aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r practis a manylion cyswllt ar gyfer AGIC. Roedd rhestr prisiau a rhestr staff y practis hefyd wedi'u harddangos yn ardal y dderbynfa.

## Gofal amserol

**Mynediad amserol**

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei roi mewn modd amserol. Fodd bynnag, os bydd oedi, bydd y staff naill ai'n ffonio'r cleifion ac yn gofyn iddynt ddod i apwyntiad hwyrach neu'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw oedi tra byddant yn yr ystafell aros.

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn defnyddio unrhyw system trefnu apwyntiadau ar-lein. Gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn, a gwelsom gleifion hefyd yn trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb â staff y dderbynfa. Nododd un claf a gwblhaodd holiadur mai un gwelliant yr hoffai ei weld fyddai cyflwyno system trefnu apwyntiadau ar-lein.

## Gofal unigol

**Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**
Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod yn fanwl ac o safon dda.

Nododd 39 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir a dywedodd 47 eu bod yn cael eu cynnwys i'r graddau y maent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

**Hawliau pobl**
Gwelsom fod polisi cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith yn y practis, yn ogystal â nifer o bolisïau ategol eraill i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y practis.

Roedd mynediad addas i bobl anabl yn y lleoliad, gan gynnwys ramp i gadeiriau olwyn, ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod a derbynfa ac ardaloedd aros mawr.

**Gwrando a dysgu o adborth**
Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Roedd y wybodaeth am gwyno yn cynnwys y broses y mae angen ei dilyn, y terfynau amser ar gyfer ymateb, yr aelod o'r staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion a manylion AGIC.

Gwelsom y cofnodlyfr lle y byddai cwynion yn cael eu cofnodi, ond nid oedd unrhyw gwynion wedi'u gwneud. Gall y cleifion roi adborth drwy e-bost, ar dudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy ddefnyddio ffurflenni adborth wrth ddesg y dderbynfa.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd yn amlwg bod y practis mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn lân ac yn daclus. Roedd tri llawr i'r practis, gydag ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear a'r llawr cyntaf. Roedd y deintyddfeydd, yn ogystal â'r ardal aros gymunedol, yn fawr ac yn lân.

Roedd toiledau ar gael i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau ac roeddent yn ymddangos yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag amrywiaeth o asesiadau risg. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg diogelwch tân, asesiad risg amgylcheddol ac asesiad risg iechyd a diogelwch. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

**Atal a rheoli heintiau**

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Gwelsom fod nifer o bolisïau ar waith o ran gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis. Roedd hyn yn cynnwys hylendid dwylo, a threfniadau rheoli heintiau'r clinig.

Darparodd rheolwr y practis dystysgrifau hyfforddiant rheoli heintiau ar gyfer y staff, yr oedd pob un ohonynt yn gyfredol. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod amserlenni glanhau a chyfleusterau hylendid dwylo effeithiol ar waith.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis ar gyfer ymdrin â gwastraff a'i waredu. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i wahanu mewn ffordd ddiogel a phriodol.

**Rheoli meddyginiaethau**

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd prosesau diogel ar waith mewn perthynas â hyn. Roedd yr holl gyffuriau brys yn gyfredol ac yn cael eu storio'n unol â'r canllawiau lleol.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**
Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ym maes diogelu oedolion a phlant. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol. Roedd y weithdrefn ddiogelu i'w gweld yn yr ardal aros.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogaeth a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a /neu wneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cadarnhawyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

**Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**
Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau hyfforddiant y staff fod pob unigolyn perthnasol wedi cael hyfforddiant i sicrhau ei fod yn defnyddio cyfarpar yn ddiogel.

## Gofal effeithiol

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Roedd yn amlwg bod trefniadau ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y manylion hyn wedi'u dogfennu yn ei ddatganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

**Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**
Gwelsom fod archwiliadau wedi'u cwblhau a oedd yn cynnwys archwiliadau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, gwastraff clinigol a mynediad i bobl anabl. Fodd bynnag, nid yw'r practis wedi cwblhau archwiliadau mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu na rhoi gwrthfiotigau ar bresgripsiwn. Gwnaethom gynghori'r practis fod angen i'r rhain gael eu cwblhau cyn gynted â phosibl.

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd polisi diogelu staff a pholisi cyfrinachedd staff ar waith yn y practis. Roedd cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel.

**Cadw cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 o gofnodion cleifion. Roedd pob cofnod o safon dda ac roedd y nodiadau yn glir ac yn hawdd eu darllen. Roedd pob cofnod a welsom yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Roedd hyn yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros fynychu.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd**

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl.

Gwelsom fod y tîm o staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac roedd y gydberthynas rhyngddynt a'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'i gilydd a'r cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad yn dystiolaeth o hyn.

Gwnaethom edrych ar y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys pob maes sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad, ac roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod y staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau diweddaraf.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion yn cael eu cymryd o'r cyfarfodydd hynny.

**Y gweithlu**

Dywedwyd wrthym am y broses a ddefnyddir i recriwtio aelodau newydd o staff ac roedd polisïau ar waith i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff. Dywedwyd wrthym nad oedd y clinig erioed wedi defnyddio staff asiantaeth.

Cedwir ffeiliau staff, a gwelsom eu bod yn cynnwys tystiolaeth o'u cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, eu contract cyflogaeth, eu statws imiwnedd o ran Hepatitis B a'u gwiriad gan y DBS. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod yswiriant indemniad proffesiynol wedi'i drefnu ar gyfer pob aelod o'r staff.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hyderus yn codi unrhyw broblemau neu bryderon am y gofal a ddarperir i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Park Street

## Dyddiad yr arolygiad: 29 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Practis Deintyddol Park Street**

**Dyddiad yr arolygiad: 29/09/2022**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i reolwr y practis gwblhau'r archwiliadau mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu a rhoi gwrthfiotigau ar bresgripsiwn** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 16 (1) (a)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd a 3.5 Cadw cofnodion | Wedi cofrestru ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gwblhau'r ddau archwiliad. | Catherine Hayes | Nodwyd y bydd angen tri mis i'w cwblhau. |